CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG

Gwyndy, Bryncroes, Sarn, Pwllheli. Gwynedd. LL53 8ET.
Teleffon: Botwnnog 730357

8fed Mehefin, 2022

Annwyl Aelod,

Cynhelir cyfarfod o'r Cyngor Nos Lun nesaf, 13eg Mehefin, 2022 am 7.30 y.h. yng Nghanolfan Bryncroes.

1. **I ETHOL CADEIRYDD AM Y FLWYDDYN 2022/23 (Ward Botwnnog)**

2. **I ETHOL IS-GADEIRYDD AM Y FLWYDDYN 2022/23 (Ward Sarn Mellteyrn)**

2. **YMDDIHEURIADAU**

3. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**
I dderbyn gwybodaeth.

4. **CADARNHAU COFNODION Y CYNGOR A GYNHALIWYD**
(1) 10fed MAI, 2022
Copi'n amgaeëdig. "A"
I drafod y materion yn codi o'r cofnodion fel a ganlyn:

Eitem 10 – Materion yn codi o'r Cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd yn gynharach ar y noson
(a) Adroddiad Y Cynghorydd Gareth Williams – aelod dros Fotwnnog ('nawr Pen Draw Llyn) ar Gyngor Gwynedd.
(b) Cynrychiolydd ar Fwrdd Llywodraethol Ysgol Pont-y-Gôf (yn anffodus nid oedd Gwenan Griffith, y cynrychiolydd wedi cyflwyno ei ffurflen enwebiad felly ddim yn aelod o'r Cyngor ar hyn o bryd).
(c) Cynrychiolwyr i wasanaethu ar:
Is-bwyllgor y Fynwent: Y Cynghorwyr Dylan Parry Jones, Glyn Roberts ynghyd â Chadeirydd y flwyddyn yn rhinwedd ei swydd. Noder hefyd 'roedd Carys H. Evans ag Ifor Owen yn aelodau o'r Is-bwyllgor.
Un Llais Cymru – Y Cynghorydd Elin Hughes a Carys H. Evans.

Eitem 13 – Materion Ffyrdd a Llwybrau
Ymateb y Peiriannydd Rhanbarthol, Cyngor Gwynedd.

(2) **CYFARFOD ARBENNIG O'R CYNGOR A GYNHALIWYD 6ed MEHEFIN, 2022**
Copi'n amgeedig. "B"

5. **CEISIADAU CYNLLUNIO**
I ystyried unrhyw gais ddaw i law cyn noson y Cyngor.

6. **MATERION FFYRDD A LLWYBRAU**
A oes unrhyw ffordd/llwybr angen sylw.

7. **AWDURDOD I DALU**
(a) I awdurdodi'r taliad i'r Clarc a'r HMRC (manylion noson y Cyngor) ac unrhyw daliad ddaw i law cyn dyddiad y Cyngor.
(b) Bydd angen penodi aelod(au) i arwyddo mandad y banc gan nad yw David Brunelli nag Ifor Owen yn aelodau o'r Cyngor bellach.
(Y rhai sydd eisoes ar y fandad yw'r Cynghorydd Glenys Williams a'r Clarc).

8. **ARCHWILIO'R CYFRIFON AM Y FLWYDDYN 2021/22**
Bellach mae'r Archwiliwr Mewnol wedi cwblhau ei waith archwilio am y flwyddyn 2021/22 – copi'n amgaeedig. "C"
Bydd angen I'r Cyngor:
a) Dderbyn y ffurflen flynyddol fel y'I cyflwynwyd a nodi fod y cwestiynau 1-8 ar y Datganiad Llywodraethu Blynyddol (Rhan 1) wedi eu hateb yn 'Do' a chwestiwn rhif 9 yn 'amh'.
b) Derbyn y wybodaeth a nodwyd ar dudalen 4 'Datganiad Llywodraethu Blynyddol.'
c) Awdurdodi'r Cadeirydd i arwyddo'r ffurflen ar ran y Cyngor fel cofnod cywir o'r cyfrifon (os mai dyma yw barn y Cyngor).

9. **MYNWENT LLANDEGWNNING**
I adrodd fod y Cyngor wedi derbyn grant gan AHNE i roddi giat newydd yn Eglwys Llandegwnning.

10. **CYFETHOL AELODAU**
I ystyried y cais/ceisiadau sydd i law.

11, **RECRIWTIO I FWRDD CYFOETH NATURIOL CYMRU**
E-bost gan Syr David Henshaw.

12. **DATHLU**
Yn dilyn i fyny o'r Cyngor arbennig a gynhaliwyd ar 6ed Mehefin, 2022, i ystyried a oes angen/modd dathlu llwyddiant y Cymru yng Nghwpan y Byd.

13. **EISTEDDFOD GENEDLAETHOL LLYN AC EIFIONYDD**
Llythyr Elen Elis, Trefnydd a Phennaeth Artisitig.
Copi'n amgaeedig. "CH"

Yn gywir,

Clarc

AELODAETH Y CYNGOR
Y CYNGHORWYR

Carys H. Evans	Elin Hughes	Dylan Parry Jones
Glyn Roberts	Michael Strain	Carys E. Williams
Glenys Williams	Iwan J. Williams	Siôn Williams